



Tribiwnlys Tir
Amaethyddol
Cymru

Agricultural
Land Tribunal
Wales

Adroddiad Blynyddol 2012 - 2013

ISBN 978-0-7504-9359-8

Cynnwys

	Rhagair	4
Adran 1	Amdanom	5
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	9
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	15
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	16
Adran 5	Gwariant	17



Rhagair

Gan y Cadeirydd

James Buxton

Hwn yw fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod o fis Ebrill 2012 i fis Mawrth 2013. Gobeithio y bydd yn cynnwys digon o wybodaeth i chi ac y bydd yn hawdd i'w ddarllen.

Ein nod yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn gwasanaethu buddiannau pawb yng Nghymru sydd ag anghydfod amaethyddol neu anghydfod draenio o fewn ein hawdurdodaeth, drwy ymdrin ag unrhyw anghydfod o'r fath yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn fwyaf penodol, rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau bod pob un sy'n rhan o'r anghydfod yn teimlo yn y pen draw bod yr anghydfod wedi cael ei ddatrys yn deg mewn cyn lleied o amser ag sy'n rhesymol.

Fel y gwelir o'r ystadegau yn yr Adroddiad, cyflwynwyd nifer o wahanol Geisiadau i'r Tribiwnlys y llynedd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â defnydd o dir gan drydydd parti. Mae'r adborth a gawsom am yr achosion lle bu'n rhaid cael penderfyniad gan y Tribiwnlys, gan fod y partiön wedi methu â dod i gytundeb eu hunain, yn dangos bod y rhai a fu'n ymwneud â'r achosion yn teimlo bod dull gofalus a barnwrol y Tribiwnlys wedi bod yn gyson ac yn foddhaol.

Rydym yn croesawu unrhyw gwestiynau neu sylwadau sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar waith y Tribiwnlys, neu gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio at Ysgrifennydd y Tribiwnlys i ddechrau.

Adran 1 – Amdanom

Yn yr adran hon, ein:

- Cefndir
- Trosolwg o'r gweithdrefnau
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Cysylltu â'r Tribiwnlys

Cefndir

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru'n chwarae rhan bwysig drwy ddatrys anghydfodau a phroblemau eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol sy'n deillio o gytundebau tenantiaeth sy'n cael eu dal dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru hefyd yn datrys anghydfodau sy'n ymwneud â draenio tir amaethyddol dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru'n gorff statudol annibynnol ag awdurdodaeth dros ardal ddaearyddol Cymru yn unol â Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Ardaloedd) 1982 (SI 1982/97).

Trosolwg o'r gweithdrefnau

Prif nod Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yw sicrhau bod modd i bob parti gyflwyno ei achos a chael ystyriaeth cyn llawned a chyn deced ag sy'n bosibl.

Mewn Gwrandawriad mae panel y tribiwnlys yn cynnwys Cadeirydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod Lleyg. Penodir Aelodau Lleyg oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth gyffredinol.

Fel arfer, bydd Gwrandawriadau'r Tribiwnlys yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac yn agos at y tir dan sylw.

Ystyrir unrhyw ofynion arbennig sydd gan y rhai sy'n dod i Wrandawriad, megis; cadair olwyn, cymorth clyw, cyfieithydd ac ati.

Ni chodir tâl am wneud cais i'r Tribiwnlys. Nid yw'n ofynnol ychwaith i'r naill ochr na'r llall dalu costau adroddiad gan Arbenigwr Annibynnol mewn achosion lle gofynnir am adroddiad o'r fath i helpu'r Tribiwnlys.

Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Aelodau Lleyg. Gwneir penodiadau ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol hysbysebu swyddi gwag a chynnal cyfweiliadau cystadleuol.

Cadeirydd Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am weinyddiaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.

Aelodau Lleyg Mae Aelodau Lleyg yn dod ag ystod eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol i bob Gwrandawriad. Maent yn eistedd ar y Panel Draenio Tir, y Panel Ffermwyr neu'r Panel Tirfeddianwyr.

Ysgrifennydd Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r Ysgrifennydd sy'n ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifennydd yn ymgynghori â'r Cadeirydd ynglŷn ag unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn y gwrandawriad ac yn trosglwyddo dyfarniadau a Chyfarwyddiadau'r Cadeirydd yn ysgrifenedig i'r partïon. Mae'r Ysgrifennydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y Cadeirydd, yr Aelodau a'r partïon ac yn mynd i bob Gwrandawriad er mwyn sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn ddirwystr.

Cadeirydd
James Buxton

Dirprwy Gadeirydd
Simon Duffy

Panel Draenio Tir
5 Aelod

Panel Ffermwyr
12 Aelod

Panel Thirfeddianwyr
10 Aelod

Penodiadau

Penodwyd chwe Aelod Lleyg i'r paneli Draenio Tir, Ffermwyr a Thirfeddianwyr ym mis Chwefror 2013.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd hyfforddiant cynefino i aelodau newydd ym mis Chwefror 2013.

Cynhaliwyd cynhadledd hyfforddi i'r holl aelodau ym mis Chwefror 2013. Cafodd y ddau ddigwyddiad adborth cadarnhaol gan yr aelodau.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

I gysylltu ag Ysgrifennydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru:

Cyfeiriad y Tribiwnlys:

Adeiladau'r Llywodraeth

Spa Road East

Llandrindod

Powys

LD1 5HA

Llinell Gymorth y Tribiwnlys:

01597 829809

Ffacs y Tribiwnlys:

01597 829801

E-bost y Tribiwnlys:

altwales@wales.gsi.gov.uk

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon, ein:

- Niferoedd ac ystadegau
- Adolygiadau ac apeliadau sy'n cael eu hanfon ymlaen
- Cyflawniad ar sail dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau


Mae blwyddyn Tribiwnlys yn ymestyn o fis Ebrill i fis Mawrth.

Cesglir yr ystadegau a ganlyn:

- nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd
- math o gais a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau a gwblhawyd
- canlyniad ceisiadau

Tabl 2.1 Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd 2012-2013

Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd 2012-



Tabl 2.2 Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd yn ôl Blwyddyn a Math o Gais

Math o Gais	Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd		
	2012-2013	2011-2012	2010-2011
Draenio Tir	4	3	3
Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth	3	5	6
Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad	1	1	3
Caniatâd i gyflwyno Rhybudd i Ymadael	2	2	1
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	0	1
Cymeradwyaeth i wneud Gwelliannau Hirdymor	0	0	1
Offer Parhaol	0	1	0
Newid Penderfyniad	1	1	0
Costau	3	2	0
Newid Costau	0	0	0
Cyfanswm	14	15	15

Tabl 2.3 Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd fesul blwyddyn


Mae achos wedi'i gwblhau yn gais sydd wedi cael ei gwblhau drwy un o'r canlynol:

- yr ymgeisydd yn tynnu'r cais yn ôl,
- Gwrandawriad lle mae'r Tribiwnlys yn penderfynu gwrthod neu gefnogi'r cais, neu
- Gorchymyn Cydsynio yn cael ei roi gan y Tribiwnlys.

Math o Gais	Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd (a'r rhai a gariwyd drosodd o 2011-2012)		
	2012-2013	2011-2012	2010-2011
Draenio Tir	5	5	2
Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth	4	12	8
Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad	0	3	4
Caniatâd i gyflwyno Rhybudd i Ymadael	1	2	2
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	1	0	0
Cymeradwyaeth i wneud Gwelliannau Hirdymor	0	0	1
Offer Parhaol	0	0	0
Newid Penderfyniad	1	1	0
Costau	3	1	0
Newid Costau	1	0	0
Cyfanswm	16	24	17

Tabl 2.4 Ceisiadau a gwblhawyd yn 2012-2013 yn ôl Canlyniad

■ Tynnu'n ôl
 ■ Gor. Cydsynio
 ■ Gwrthod
 ■ Cefnogi
 ■ Cario Drosodd



Tabl 2.5 Ceisiadau yn 2012-2013 yn ôl Math o Achos a Chanlyniad

Math o Gais	Canlyniad (yn cynnwys rhai a gariwyd drosodd o 2011-2012)				
	Tynnu'n Ôl	Gorchymyn Cydsynio	Gwrthod	Cefnogi	Cario Drosodd
Draenio Tir	2	3	0	0	3
Olyniaeth ... Marwolaeth	3	1	0	0	6
Olyniaeth ... Ymddeoliad	0	0	0	0	1
Caniatâd i gyflwyno Rhybudd i Ymadael	1	0	0	0	3
Tyst. Hwsmonaeth Wael	1	0	0	0	0
Cymeradwyaeth i wneud Gwelliannau Hirdymor	0	0	0	0	0
Offer Parhaol	0	0	0	0	0
Newid Penderfyniad	0	0	0	1	0
Costau	0	0	2	1	0
Newid Costau	0	0	1	0	0
Cyfanswm	7	4	3	2	13

Gwrandawiadau

Yn ystod 2012-2013, aeth 5 cais ymlaen i Wrandawriad (yn cynnwys ymweliad safle):

Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth 1 Diwrnod Gwrandawriad

Draenio Tir 1 Diwrnod Gwrandawriad

Draenio Tir 1 Diwrnod Gwrandawriad

Offer Parhaol 2 Ddiwrnod Gwrandawriad

Cynhaliwyd 2 gynhadledd ffôn hefyd:

Caniatâd i gyflwyno Cyfarwyddiadau Rhybudd i Ymadael

Cais i newid Penderfyniad Tribiwnlys

Adolygiadau ac apeliadau sy'n cael eu hanfon ymlaen

Gall partïon wneud cais am adolygiad o benderfyniad Tribiwnlys ar seiliau cyfyngedig. Ni wnaethpwyd unrhyw geisiadau yng nghyfnod yr adroddiad hwn.

Gall partïon ofyn i'r Tribiwnlys gyfeirio eu hachos i'r Uchel Lys os ydynt yn credu bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir ar bwynt cyfreithiol. Ni chafwyd unrhyw gais i gyfeirio achos yng nghyfnod yr adroddiad hwn.

Cyflawniad ar sail dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio mesur dwy agwedd allweddol ar ein gwaith; cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerwyd i brosesu cais – o adeg derbyn y cais i'r Gwrandawriad neu ddod i benderfyniad.


Er mwyn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid, defnyddiasom ddangosydd sy'n deillio o arolygon cwsmeriaid a gynhelir bob hyn a hyn.

Cyflymder ein gwasanaeth

Targed: Ymdrin â 95% o'r ceisiadau a gofrestrwyd neu'r ymholiadau cyn cofrestru cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn Ffurflen Gais



Cyrhaeddwyd y targed ym mhob achos – 100%



* Methwyd â chyrraedd y targed mewn 1 achos. Roedd hyn oherwydd cymhlethdod y penderfyniad a blaenoriaethau eraill yn achos y Tribiwnlys. Cyhoeddwyd y penderfyniad 5 diwrnod ar ôl dyddiad y targed.

Cwynion

Ni dderbyniodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon, yr:

- Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio gwella'r gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid a'i nod yw rhoi lle canolog i'r cwsmeriaid ym mhopeth y mae'n ei wneud.

Yn ystod 2012-2013 sefydlodd y Tribiwnlys arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid. Maent yn dangos i ni beth mae'r Tribiwnlys yn ei wneud yn dda, ac yn tynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Llenwyd 10 ffurflen yn ystod 2012-2013. O'r rhain:

- Roedd 100% o'r cwsmeriaid yn dweud bod y Tribiwnlys yn gymwynasgar wrth ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn, ein bod wedi ymateb yn gyflym a'u bod yn fodlon â'r wybodaeth a gawsant;
- Roedd 100% o'r cwsmeriaid yn cytuno bod y Tribiwnlys wedi prosesu eu hachos yn effeithlon.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon, ein:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2013-2014

Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn dal i ddatblygu er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei lwyddiannau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau Busnes 2013-2014

- datblygu Gwefan y Tribiwnlys i fod yn offeryn mwy effeithiol i ddefnyddwyr
- datblygu'r system adborth rhanddeiliaid
- parhau i gynnig hyfforddiant cynefino i Aelodau newydd y Tribiwnlys

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer 2012-2013

Gwariant ar gyfer 2012-2013

CYNNWYS	SWM
Ffioedd a Threuliau'r Cadeirydd	£21,000.00
Gwrandawriadau/Hyfforddiant	£5,000.00
Treuliau'r Aelodau	£5,000.00
Ffioedd Cyfreithiol	£100.00
CYFANSWM	£31,100.00

* wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf